***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 237

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003

## RHAN II

## PERSONAU COFRESTREDIG A RHEOLI GWASANAETH MAETHU AWDURDOD LLEOL

**Yr asiantaeth faethu — ffitrwydd y darparydd**

**5.**—(1) Rhaid i berson beidio â rhedeg asiantaeth faethu oni bai bod y person yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i redeg asiantaeth faethu oni bai bod y person—

(a) yn achos asiantaeth faethu annibynnol, yn unigolyn sy'n rhedeg yr asiantaeth faethu; neu

(b) yn gorff a—

(i) bod y corff wedi hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o enw, cyfeiriad a safle unigolyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr unigolyn cyfrifol") yn y corff a hwnnw'n unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall i'r corff ac yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr asiantaeth faethu; a

(ii) bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw:

(a) bod yr unigolyn yn onest ac o gymeriad da;

(b) bod yr unigolyn yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i redeg yr asiantaeth faethu; ac

(c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael ynglyn â'r unigolyn mewn perthynas â phob mater a bennir yn Atodlen 1.

(4) Rhaid i berson peidio â rhedeg asiantaeth faethu—

(a) os yw wedi'i ddyfarnu'n fethdalwr neu os dyfarnwyd atafaeliad ar ei ystâd ac (yn y naill achos neu'r llall) nad yw wedi'i ryddhau ac nad yw'r gorchymyn methdaliad wedi'i ddiddymu neu wedi'i ddileu; neu

(b) os yw wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, ac nad yw wedi'i ryddhau mewn perthynas ag ef.

**Yr asiantaeth faethu — penodi rheolwr**

**6.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig benodi unigolyn, ac eithrio'r darparydd cofrestredig, i reoli'r asiantaeth faethu.

(2) Os corff yw'r darparydd cofrestredig, rhaid iddo beidio â phenodi yn rheolwr yr unigolyn cyfrifol.

(3) Rhaid i'r darparydd cofrestredig hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith—

(a) o enw unrhyw berson a benodwyd yn unol â'r rheoliad hwn; a

(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i ddod yn effeithiol.

**Yr asiantaeth faethu — ffitrwydd y rheolwr**

**7.**—(1) Rhaid i berson beidio â rheoli asiantaeth faethu oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli asiantaeth faethu oni bai—

(a) bod y person yn onest ac o gymeriad da;

(b) o roi sylw i faint yr asiantaeth faethu, ei datganiad o ddiben a nifer ac anghenion y plant sydd wedi'u lleoli ganddi—

(i) bod gan y person y cymwysterau, y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol i reoli'r asiantaeth faethu; a

(ii) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i reoli asiantaeth faethu;

(c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael ynglyn â'r person mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir yn Atodlen 1.

**Y person cofrestredig — gofynion cyffredinol**

**8.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, o roi sylw—

(a) i ddatganiad o ddiben yr asiantaeth faethu, ei maint, a nifer ac anghenion y plant sydd wedi'u lleoli ganddi; a

(b) i'r angen i ddiogelu a hybu lles y plant sydd wedi'u lleoli gan yr asiantaeth faethu,

redeg neu reoli'r asiantaeth faethu (yn ôl fel y digwydd) â gofal, medrusrwydd a medr digonol.

(2) Os yw'r darparydd cofrestredig—

(a) yn unigolyn, rhaid iddo ymgymryd;

(b) yn gorff, rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd;

o dro i dro ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod gan yr unigolyn y profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg yr asiantaeth faethu.

(3) Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd o dro i dro ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol er mwyn sicrhau bod gan y rheolwr hwnnw y medrau y mae eu hangen i redeg yr asiantaeth faethu.

**Hysbysu o dramgwyddau**

**9.** Os yw'r person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd troseddol, p'un ai yng Nghymru a Lloegr neu mewn man arall, rhaid i'r person sydd wedi'i gollfarnu hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar unwaith—

(a) o dyddiad a man y collfarniad,

(b) o'r tramgwydd y cafodd ei gollfarnu o'i herwydd; ac

(c) o'r gosb a osodwyd arno mewn perthynas â'r tramgwydd.

**Gwasanaeth maethu awdurdod lleol — rheolwr**

**10.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i reoli gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol a rhaid iddo hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith —

(a) o enw'r person a benodwyd; a

(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i ddod yn effeithiol.

(2) Mae rheoliadau 7, 8, a 9 i fod yn gymwys i reolwr gwasanaeth maethu awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, fel y bônt yn gymwys i reolwr asiantaeth faethu mewn perthynas â'r asiantaeth faethu.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os yw'r person a benodwyd o dan baragraff (1) yn rhoi'r gorau i reoli gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol.